

Ffridd – cynefin ar y cyrion

Yn gweithio gyda'n gilydd i greu cartref i fyf natur





Efridd nodweddiadol yng nghanolbarth Cymru gyda rhedyn, eithin a choed gwasgaredig.

Crynodeb

Nod y cyhoeddiad hwn yw tynnu sylw at arwyddocâd cynefin ffridd, neu goedcae, yng nghefn gwlad Cymru a chodi ymwybyddiaeth o werth ffriddoedd o safbwynt ecolegol, diwylliannol a defnydd tir.

Mae ffridd yn elfen hanesyddol, diwyllannol a gweledol bwysig yn ein tirweddau. Mae ffriddoedd yn cynnig tystiolaeth o batrymau cynnar o anheddu a defnyddio tir. Maen nhw'n hafan i fywyd gwyllt ac yn creu cyfleoedd da i weithredu dulliau ffermio sydd o werth uchel i natur.

Mae ffriddoedd yn creu cyswllt ecolegol rhwng tiroedd isel a'r

ucheldiroedd, ac yn helpu nifer o rywogaethau i symud drwy'r dirwedd. Maen nhw'n allweddol i amrywiaeth o rywogaethau pwysig ac yn darparu cynefin sy'n hanfodol er mwyn iddyn nhw gwblhau eu cylch bywyd.

Ond mae'r ffridd hefyd yn gynefin bregus ac mae o dan bwysau; gall ddiplannu'n rhwydd o ganlyniad i newidiadau mewn defnydd tir sy'n

digwydd oherwydd y galw am gynhyrchu mwy o fwyd, tanwydd a phren – a hynny ar raddfa nad yw'n gynaliadwy ar gyrion tir uchel Cymru. Mae rheolaeth addas, gwell ymwybyddiaeth a gwell dealltwriaeth yn allweddol os am gynnal a gwarchod y cynefin amrywiol a deinamig hwn ar gyfer y dyfodol.

Ffridd – ar ymylon yr ucheldir

Hynod, amrywiol a dan fygythiad; mae'r tir ar gyrion yr ucheldir yn gynefin sy'n llawn cymeriad a chyfoeth cudd. Mae'n adnodd hollbwysig ar gyfer bywyd gwyllt Cymru ac mae'n cynnig her unigryw i reolwyr tir.

Mae cynefin y ffridd yn gorwedd ar ymylon ein mynyddoedd, ar y ffin rhwng y tiroedd uchel agored a'r tir fferm caeëdig, a hefyd weithiau ar lethrau serth a mannau creigiog o fewn caeau. Mae'n cynnwys casgliad brith o gymunedau ecolegol amrywiol, ond yn ei hanfod dyma'r cynefin sy'n ffurfio 'ymyl yr ucheldir'.

Mae'r gylchfa drawsnewidiol hon rhwng y tiroedd isel caeëdig a'r ucheldiroedd yn hynod o gyfoethog. Oherwydd y gwahanol gymunedau o blanhigion a geir yma, a hefyd oherwydd strwythur amrywiol y llystyfiant, mae'n gynefin pwysig iawn ar gyfer llawer o fywyd gwyllt arbennig Cymru. Yma ceir cyfran uchel o rywogaethau sy'n cael eu

gwarchod yn gyfreithiol ac sy'n cael eu hystyried yn flaenoriaeth o ran yr angen i'w diogelu. Yn eu plith mae gwyfyn y gliradain Gymreig, adar fel y bras melyn a'r frân goesgoch a chasgliadau pwysig o gennau a ffyngau glaswelltir.

Mae ffriddoedd hefyd yn cysylltu tiroedd isel a'r ucheldiroedd. Mae'n caniatáu i boblogaethau gwasgaredig o greaduriaid fel llygod pengrwn y dŵr a gwiberod symud mewn ymateb i newidiadau yn yr hinsawdd.

Yr hyn sy'n creu ffriddoedd yw hanes hir o amrywiadau o ran pwysau defnydd tir. Canlyniad hyn yw patrymau cymhleth o llystyfiant a chysylltedd da rhwng

cynefinoedd (a hyn sy'n cyfrif am werth uchel ffriddoedd, i raddau helaeth). Mae'r brithwaith hwn yn bodoli (ac yn gorgyffwrdd) ar raddfeydd gwahanol iawn – o batshys bychain (llai na medr o faint) i gynfas eang (miloedd o hectarau) sy'n amlwg yn y tirlun.

Yr hyn sy'n nodweddu ffriddoedd, felly, yw casgliad o gynefinoedd sy'n hynod amrywiol o ran strwythur a chyfansoddiad. Pan fydd ffridd mewn cyflwr da gall fod yn amlwg o gyfoethog, ond mae enghreifftiau mwy unffurf o llystyfiant ffridd (fel glaswelltir asidaidd neu ardaloedd o redyn ungoes) hefyd yn werthfawr i fywyd gwyllt.

Hanes cymdeithasol y gair 'ffridd'

Yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol mae ffridd yn elfen bwysig o dirwedd Cymru.

Yn draddodiadol, 'coedcae' neu 'ffridd' oedd yr enw ar y cynefin unigryw hwn. Mae ystyron gwahanol i'r termau hyn ac felly mae'n anodd eu dehongli'n bendant mewn cyd-destun cymdeithasol neu fywydegol.

Mae'r gair 'ffridd' yn tarddu o'r gair Saesneg Canol 'frith', sy'n golygu coedwig, coetir neu gefn gwlad coediog. Mae'n bosib bod rhyw ystyr 'coediog' wedi perthyn yn wreiddiol i'r gair Cymraeg 'ffridd', yn debyg i'r gair 'coedcae', sy'n golygu coedwig neu goed o fewn cae. Yn y 14egG y cafwyd y cofnod ysgrifenedig cyntaf o'r gair 'ffridd' yn yr iaith Gymraeg.


Mae lleoliad a strwythur ffriddoedd yn amrywio o fan i fan dros Gymru. Yng ngogledd Cymru mae 'ffridd' yn cyfeirio at dir heb ei amgáu neu at dir sydd wedi ei amgáu o fewn cae mwy o faint, gyda wal neu ffens o'i amgylch ac yn agos at y wal fynydd. Mae'r gair

'coedcae' yn cael ei ddefnyddio fel rheol yn ne Cymru i ddisgrifio ardal goedig.

Dros y ffin yn Lloegr mae'r geiriau a ddefnyddir i gyfeirio at ffridd yn cynnwys 'frith', 'inbye' ac 'intake'. Mae 'intake' fel rheol yn golygu 'tir sydd wedi ei adennill o'r rhostir'. Mae'n cyfeirio'n draddodiadol at dir a 'gipiwyd' o'r rhos ac yna'i drin. Dechreuodd 'intakes' gael eu creu yn y Canol Oesoedd ac fe barodd yr arfer tan y 19egG.

Mae'n siwr bod defnydd tir ar ffriddoedd wedi amrywio'n fawr o oes i oes. Am ganrifoedd bu'r newidiadau mewn economi ffermio da byw yn dylanwadu'n fawr ar nifer y stoc a fyddai'n pori'r ffridd, ac yn effeithio'n fawr ar gymeriad y tirlun. Yn draddodiadol mae llawer o ffermwyr wedi defnyddio ffriddoedd fel ardaloedd i gadw da byw, megis gwartheg yn y gaeaf, cyn iddyn nhw symud i'r mynydd dros yr haf¹, neu fel tir pori garw a lloches o bryd i'w gilydd lle nad oes angen bugeilio.

Ble mae ymylon yr ucheldir?



Mae ffriddoedd i'w gweld ar hyd a lled Cymru. Mae'r cynefin i'w weld rhwng yr ucheldiroedd agored a'r tiroedd isel caeëdig, ar uchder rhwng 100 m a 450 m. Fel rhan o'r gwaith mapio a gwblhawyd ar gyfer yr *Arolwg o Gynefinoedd Cymru (1979-1997)*² cofnodwyd y gwahanol gynefinoedd sy'n cyfrannu at wead yr ardaloedd sy'n cael eu hadnabod fel ffriddoedd. Mae hyn wedi datgelu bod ffriddoedd i'w gweld dros ardaloedd helaeth yng Nghymru. Ar gyfartaledd, ffriddoedd sydd â'r amrywiaeth uchaf o gynefinoedd ym mhob cilomedr sgwar mewn cymhariaeth â thirweddau arfordirol, iseldirol ac ucheldirol².

Ffig 1. Dosbarthiad y pedwar prif fath o gylchfaoedd tirwedd yng Nghymru, yn dangos y sgwariau 1km sy'n cynnwys ffridd².

Be 'di'r ots am ffriddoedd?

Mae'r her gynhenid sydd ynghlwm wrth reoli tir ar ymylon yr ucheldir wedi creu hafan i fywyd gwyllt.

Mae ffridd yn gynefin cyfoethog iawn, a'r amrywiaeth o ran strwythur a chyfansoddiad y llystyfiant sy'n gyfrifol am hyn. Gall gynnal nifer uchel o rywogaethau, ac mae hefyd yn cael ei gydnabod fel cynefin sy'n hwyluso symudiad ac addasiad rhywogaethau wrth i amodau newid. O'r herwydd mae ffriddoedd yn helpu creu 'clustog' warchodol i diroedd uchel dynodedig wrth i reolaeth ddwysáu ar diroedd is, ac yn helpu rhywogaethau i symud i bob cyfeiriad wrth iddyn nhw geisio canfod ardaloedd addas er mwyn cwblhau eu cylchoedd bywyd. Mae hyn yn hynod o bwysig a rhaid peidio â'i ddiystyru.

Gall yr amrywiaeth a'r cyfoeth cynhenid hwn helpu'r dirwedd fod yn fwy gwydn – mae hyn yn golgu'r gallu i ymdopi ag aflonyddiad, ail-drefnu a pharhau i weithredu. Drwy hyn gall ffriddoedd gynyddu gwytnwch ardaloedd naturiol pwysig.

Bywyd gwyllt ar y cyrion:

Adar

Mae ffriddoedd yn hafan i amryw o adar nythu fel corhedydd y coed, bras melyn, llinos, llinos y mynydd a chrec yr eithin, a hynny ohewydd y brithwaith o gynefinoedd sy'n bresennol. Mae ymchwil wedi dangos bod mwy o'r adar hyn i'w canfod ar ffriddoedd nag mewn unrhyw ran arall o'r dirwedd³. Er na all unrhyw rywogaeth o aderyn gael ei ystyried yn 'arbenigwr ffridd' mae'n deg dweud bod ffridd yn cynnal casgliad unigryw o adar.

Brithwaith o gynefinoedd yw un o'r pethau sy'n nodweddu ffridd ond bydd union gyfansoddiad y brithwaith hwnnw yn amrywio o fan i fan, gan ddylanwadu ar y casgliadau gwahanol o adar a welir yn lleol. Mae mwyalchod y mynydd a llinosiaid y mynydd yn

bwydo a nythu yng nghanol brithwaith o rug, rhedyn ungoes, brigiadau craig a glaswellt. Ar ddechrau'r tymor magu bydd mwyalchod y mynydd yn hela creaduriaid di-asgwrn cefn mewn glaswelltiroedd byr sy'n cael eu pori'n dynn ac yn llochesu mewn patshys o redyn. Yn ddiweddarach yn y tymor byddan nhw'n bwydo ar aeron criafol a drain, felly mae amrywiaeth o llystyfiant a strwythur yn hanfodol i'w llwyddiant. Os bydd mwy o eithin a phrysgwydd yn bresennol, yn hytrach na grug, bydd breision melyn yn fwy tebygol o fwydo a nythu ar y ffridd. Mae ardaloedd mwy agored ar gyrion y rhostir yn cynnig tir bwydo addas i'r boda tinwyn a'r cudyll bach sy'n hela adar bychain fel corhedydd y waun. Bydd brain coesgoch yn debygol o ganolbwytio ar laswelltir byr a sgri wrth chwilio am amryw o bryfetach ar y ddaear ac yn y pridd.



Andy Hay (rspb-images.com)

Mae mwyalchod y mynydd yn chwilio'n eang am fwyd ar hyd a lled y ffriddoedd.



Mae capiau cwyr coch yn ffynnu yn y glaswelltiroedd cyfoethog a geir ar ffriddoedd.

Ffyngau

Mae glaswelltir asidaidd sy'n cael ei bori'n dynn ar y ffriddoedd yn cynnig ardaloedd bwydo pwysig i adar fel mwyalchod y mynydd a thinwennod y garn. Mae hefyd yn gynefin pwysig i gasgliadau o ffyngau sy'n tyfu ar laswelltiroedd. Er nad yw'r gwaith arolwg yn gyflawn mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod ffriddoedd yn y cynnal cyfran helaeth o safleoedd sydd â chyfoeth o ffyngau glaswelltiroel. Mae wyth allan o'r deg safle pwysicaf yng Nghymru ar gyfer ffyngau glaswelltiroel i'w canfod o fewn cylchfa'r ffridd ac mae nifer o'r safleoedd yng Nghymru ar gyfer ffyngau glaswelltiroel yn rhyngwladol bwysig⁴.

Cennau

Mae ffriddoedd mewn sawl rhan o Gymru yn bwysig ar gyfer cennau, sy'n tyfu'n bennaf mewn llecynnau creigiog (brigiadau craig, clogfeini a sgrî). Mae'n ymddangos bod nifer o'r rhywogaethau sy'n anghyffredin ar lefel genedlaethol i'w canfod ar dir isel-canolog o gwmpas cyrion yr ucheldir. Yn eu plith mae *Halecania spodomela*, sef rhywogaeth sydd i'w gweld yn aml mewn ambell ardal yn tyfu ar slabiau craig agored. Ac ar lethrau bryniau o gylch ymylon yr ucheldir y mae'r mwyafrif o safleoedd y gwyddwn amdanynt ar gyfer y cen prin *Protoparmelia atriseda*.

Glöynnod byw a gwyfynod

Mae ffridd yn gynefin pwysig i löynnod byw a gwyfynod. Mae'r brithwaith o laswelltir asidaidd a'r llystyfiant cyfoethog dan ganopi agored o redyn yn cynnal brithion mwy o faint fel y fritheg berlog a hefyd y fritheg werdd sy'n fwy eang ei dosbarthiad. Mae trylfiadau ac ymylon nentydd yn gynefinoedd da i'r fritheg berlog fach a rhywogaethau mwy cyffredin fel y glöyn gwyn blaen oren. Mae grug, llus a choed gwasgaredig yn cynnal pob math o wyfynod, yn cynnwys y gliradain Gymreig sy'n ddibynnol ar hen goed bedw gwasgaredig.

Mamaliaid

Gall ffriddoedd hyd yn oed gynnal llygoden bengron y dŵr. Mewn nifer o ardaloedd mae llygod pengrwn y dŵr wedi cael eu gyrru i droedd uwch oherwydd bod minc yn eu hela yn yr iseldir. Mae'r ardaloedd o laswelltir corsiog a dŵr sy'n llifo'n araf ar hyd y ffriddoedd yn cynnig cynefin pwysig i lygod pengrwn y dŵr ar gyrion yr ucheldir.



Mae ffriddoedd yn cynnig strwythur llystyfiant amrywiol sy'n bwysig ar gyfer glöynnod byw fel y fritheg berlog.

Planhigion fasgwlaidd

Mae ffriddoedd yn aml yn cynnal planhigion sy'n prnhau yn ein cefn gwlad. Yn wir, dyma'r union blanhigion sydd weithiau'n nodweddu ffriddoedd. Mae'r union blanhigion sy'n syrthio i'r categori hwn yn amrywio o fan i fan, ond ymhlith y rhywogaethau nodweddiadol mae rhai sy'n hynod bwysig i fioamrywiaeth, megis y gronnell, y tegeirian llydanwyrdd bach, y ffacbysen chwerw a thegeirian bach y gors. Mae amrywiadau ucheldirol o rai rhywogaethau, fel y ddraenen wen fawr, hefyd yn nodweddu ffridd. Gall rhain fod yn ffynhonnell bwysig o fwyd i adar fel mwyalchod y mynydd.

Cynefinoedd amrywiol

Ceir cymysgedd hynod o gynefinoedd ar gyrion yr ucheldir, ond mae'r gylchfa hon hefyd yn cynnig amrywiaeth unigryw o

ran strwythur a chyfansoddiad llystyfiant ac nid oes ei thebyg i'w gweld mewn unrhyw ran arall o dirwedd Cymru. Mae ffridd yn cynnal cynefinoedd lled-naturiol yn bennaf (glaswelltir lled-naturiol, gweundir, cors, prysgwydd, coetir, rhedyn neu ddŵr agored) ond gall hefyd gynnwys ardaloedd bychain o dir sydd wedi ei wella'n amaethyddol neu goed conwydd. Efen arall gyffredin o'r tir ar gyrion yr ucheldir yw porfa goediog. Mae'r coed aeddfed⁵ sy'n perthyn i'r cynefin hwn yn adnodd sy'n dueddol o gael ei anwybyddu. Nodedig hefyd yw'r cynefinoedd dŵr croyw, fel y pyllau a'r blaenddyfroedd, sydd i'w canfod ar ffriddoedd. Mae'r rhain yn debygol o fod yn bwysig oherwydd eu hansawdd uchel gan nad ydynt yn rhy asidaidd (fel y gwelir ar diroedd uwch) nac wedi gor-gyfoethogi (fel sy'n wir am y mwyafrif o ddyfroedd yn yr iseldir).



Trevor Dines (Plantlife)

Mae ffridd yn hollbwysig i blanhigion sy'n brin ac yn diflannu, fel y tegeirian llydanwyrdd bach

Gwytnwch a chysylltedd

Gall ffriddoedd chwarae rhan bwysig yn cysylltu cynefinoedd ac yn cynyddu gwytnwch ecosystemau yng ngwyneb aflonyddiad a newid.

Gwytnwch: mae hyn yn golygu gallu ecosystem i wrthsefyll ac adfer wedi aflonyddiad, a hefyd ei allu i oroesi ac addasu fel bod yr amrywiaeth bywydegol a'r prosesau naturiol sy'n perthyn iddo, ynghyd â'r gwasanaethau y mae'n darparu yn cael eu cynnal⁶. Ystyrir bod amrywiaeth (o safbwynt bywydeg, ecoleg, tirwedd ac elfennau cymdeithasol ac economaidd) yn allweddol i gynnal gwytnwch systemau, ac mae'n

hysbys bod ffridd yn cwmpasu amrywiaeth helaeth iawn o gynefinoedd.

Cysylltedd: term eang yw hwn ac mae'n cyfeirio at nodweddion yn y dirwedd sy'n effeithio ar symudiad organebau ac ar brosesau naturiol. Mae cysylltedd yn hanfodol i allu ecosystemau i weithredu ac addasu ac mae'n angenrheidiol ar gyfer creu gwytnwch⁶. Mae'r brithwaith a geir ar gyrion yr ucheldir yn helpu anifeiliaid a phlanhigion i symud rhwng patshys o gynefinoedd pwysig o fewn y gylchfa hon a hefyd i symud rhwng yr iseldir caeeidig islaw a'r rhostir uwchben.



(RSPB)

Ffridd nodweddiadol yng nghymoedd De Cymru.

Ffridd – cyfraith a pholisi

Mae nifer fawr o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd sy'n nodweddu ffriddoedd yn bwysig iawn ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth (Adrannau 40 & 42, Deddf Amgylchedd Naturiol & Chymunedau Gwledig (NERC) 2006).

Mae gwerth cynhenid ffriddoedd a'r gymuned unigryw o rywogaethau sy'n perthyn i'r cynefin hwn yn golygu bod dyletswydd cyfreithiol ar bob corff cyhoeddus i gynnal ansawdd a maint arwynebedd y cynefin hwn. Mae Rheoliad 9A o

Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 yn cefnogi'r cyfrifoldeb cyfreithiol hwn ymhellach.

Mae'r Rheoliad hwn yn trawsosod i'n deddfwriaeth Brydeinig y rhannau hynny o'r Gyfarwydddeb Adar (jncc.defra.gov.uk/page-1373) sy'n ymwneud â chadw, cynnal ac ail-sefydlu digon o arwynebedd a digon o amrywiaeth cynefin ar gyfer ein holl adar gwyllt, ynghyd ag osgoi dirywiad neu lygredd y cynefinoedd hynny.

Ond, yn aml, pan fydd ardaloedd bychain o gynefin gwerthfawr yn gymysgfa frith gyda chynefinoedd mwy cyffredin, fel rhedyn ungoes, nid ydynt yn derbyn yr un cydnabyddiaeth, ac felly'r un lefel o warchodaeth, ag y byddent pe baent yn fwy o faint. Ond mae gan y brithwaith amrywiol hyn werth uchel iawn i fywyd gwyllt.

Cynefin dan fygythiad

Mae ffriddoedd dan bwysau mawr wrth i lystyfiant lled-naturiol ddiflannu o'n tirlun ac ildio'i le i borfa fras, planhigfeydd conwydd ac adeiladau.

Darniog

O safbwynt bywyd gwyllt mae tirweddau darniog Cymru yn golygu nad oes llawer o fannau lle gall amrywiaeth helaeth o rywogaethau ffynnu. Mae cynefinoedd sydd wedi prinu a chrebachu yn yr iseldir yn fwy o faint weithiau ar gyrion yr ucheldir. Mae hyn yn golygu bod rhywogaethau sy'n ddibynnol ar ardaloedd eang o gynefin lled-naturiol, neu gyfuniadau arbennig o gynefinoedd, yn gallu dianc o'r cynefinoedd darniog yn yr iseldir a chanfod lloches ar gyrion yr ucheldir.

Dirywiad rhywogaethau

Mae'n bosib bod newidiadau tymor hir mewn ecosystemau glaswelltiroel ar gyrion ucheldir Prydain wedi dylanwadu ar statws poblogaethau adar⁷. Mae arolygon a gynhaliwyd mewn sampl o gynefinoedd ymylol o fewn ucheldiroedd Cymru, Lloegr a de'r Alban wedi dangos bod adar sy'n gysylltiedig â chyrion yr ucheldir wedi dirywio'n sylweddol rhwng 1968 a 1980. Y rhywogaethau sy'n nythu a bwydo ar laswelltiroedd, fel yr ehedydd, crec yr eithin, tinwen y garn, y llinos

a'r bras melyn, oedd y rhai a brofodd y dirywiad mwyaf difrifol. Mewn gwrthgyferbyniad, cynyddu wnaeth adar gydag anghenion llai arbenigol, megis yr ysguthan, y siglen fraith a'r nico.

Amaeth a choedwigaeth yn trawsnewid ffriddoedd

Pan oedd y taliadau sybsidi amaethyddol ar eu hanterth fe wellwyd ffriddoedd ar raddfa anferthol. Cliriwyd ardaloedd helaeth o brysgwydd, sychwyd tiroedd llaith a chafodd tiroedd ymylol eu haredig, yn cynnwys llethrau serth ar hyd dyffrynnoedd.

Diffyg gwarchod a monitro

Dim ond ychydig o ffriddoedd sy'n cael eu gwarchod yn statudol fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae hyn yn golygu ei bod hi'n anodd iawn gwarchod y cynefin, ac mae'n golygu hefyd nad oes digon o waith monitro systematig yn digwydd ar ein ffriddoedd. Yn wir mae diffyg ymwybyddiaeth a chydabyddiaeth o bwysigrwydd ffriddoedd, oherwydd prinder gwybodaeth, yn fygythiad ynddo'i hun.

Tom Marshall (rspb-images.com)



Mae adar nodweddiadol fel y bras melyn yn canfod lloches ar ffriddoedd

Yr heriau ar gyrion ucheldiroedd

Ar hyd ymylon yr ucheldiroedd mae bywyd gwyllt, ffermio a choedwigoedd yn plethu dros amser a thros dirweddau cyfan, sy'n creu heriau mawr ond yn cynnig cyfleoedd hefyd i bobl a bywyd gwyllt.

Sut mae cynnal tirwedd ddeinamig?

Dros amser mae newidiadau mewn dulliau rheoli tir wedi effeithio ar strwythur a chyfansoddiad cynefinoedd ar gyrion ucheldir Cymru. Mae ffriddoedd yn wynebu heriau mawr. Gall mabwysiadu dulliau rheoli anaddas ddylanwadu'n fawr ar eu dyfodol. Ond gall yr un dulliau, o'u defnyddio'n briodol, wella cyflwr ffriddoedd ar gyfer bywyd gwyllt.

Oherwydd diffyg pori, neu ffactorau eraill fel difflaniad trefn addas o bori gyda gwartheg, collwyd y strwythur amrywiol o lwyni a phrysgwydd ar hyd llawer o'n ffriddoedd. Dros amser, heb ddigon o bori, gall llethrau agored y ffridd ddiffannu dan drwch o eithin a rhedyn. Yn y pen draw, troi'n goetir fydd hanes yr ardaloedd hyn. Ar y llaw arall, os bydd gormod o bori, bydd hi'n anodd i blanhigion fel grug a choed collddail atgynhyrchu. Mewn sawl man mae hen blanhigfeydd conwydd, a chynlluniau plannu newydd, wedi disodli'r brithwaith gwerthfawr o brysgwydd ar ein ffriddoedd.

Gall llosgi anaddas, fel dull rheoli amaethyddol, sbwyllo ansawdd prysgwydd. Gall hefyd annog lledaeniad rhedyn a gweiriau trwchus, garw a fydd wedyn yn atal tyfiant planhigion gwannach sy'n elfennau pwysig o gynefin ffridd. Mae llosgi hefyd yn gallu niweidio strwythur a hydroleg y pridd.

Ond dan reolaeth ofalus gall llosgi annog aildyfiant grug ar gyrion rhostir uchel, a gall agor y llystyfiant fel y gellir cynnal patrymau pori cydnaws ar draws y ffridd - gan arwain at frithwaith brafiach yn y pen draw.



RSPB

Enghraifft o waith llosgi ar raddfa fechan o fewn ffridd, sy'n agor y llystyfiant fel y gellir cynnal trefn bori gydnaws.

Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn dangos pa mor bwysig yw cynefin ffridd fel elfen o dirwedd Cymru. Mae'n gynefin hanfodol ar gyfer llawer o'n bywyd gwyllt pwysig. Mae nifer o resymau'n gyfrifol am ddiflaniad cynefinoedd naturiol neu led-naturiol, fel ffriddoedd, o gyrion yr ucheldir ond nid oes rhaid i hyn barhau. Mae gwybodaeth, cydnabyddiaeth a rheolaeth briodol yr un mor allweddol ar gyfer adfer bywyd gwyllt ag y maent ar gyfer sicrhau rheololaeth gynaliadwy o'n tiroedd.

Mae tirweddau gyda chyfoeth o fywyd gwyllt yn iach ac yn gynhyrchiol. Drwy sicrhau bod ymylon yr ucheldir yn cael eu rheoli drwy ddefnyddio gwahanol ddulliau rheolaeth gallwn sicrhau amrywiaeth o fywyd gwyllt.

Dylai cynlluniau rheoli tir sy'n cael eu hariannu gan bwrs y wlad, fel cynlluniau amaeth- amgylcheddol, ganolbwyntio ar greu tirweddau gwydn sydd â chyfoeth o gynefinoedd a rhywogaethau. Dyma yw natur ffriddoedd ac felly mae'n rhesymegol bod opsiynau o fewn cynlluniau o'r fath yn canolbwyntio ar greu gwell amrywiaeth o gynefinoedd ar ffermydd unigol.

Dylai cynlluniau grantiau ar gyfer creu coedwigoedd ganolbwyntio ar ardaloedd sydd yn goediog o ran eu

natur a dylent geisio adfer, cysylltu a chynyddu maint coedwigoedd hynafol a/neu led-naturiol. Er mwyn sicrhau na fydd unrhyw gynefinoedd agored gyda chyfoeth o fywyd gwyllt yn cael eu colli wrth i ragor o goetir gael ei greu ar hyd a lled Cymru rhaid asesu'r cynlluniau hyn yn effeithiol, o safbwynt eu hardrawiad posib ar yr amgylchedd. Dylid cynnig opsiynau pellach, mwy hyblyg, i berchnogion tir sy'n awyddus i blannu coed a dylai fod modd iddynt gael cefnogaeth gan swyddogion ymgynghorol gwybodus i'w cynorthwyo gyda'r dewisiadau.

Dylid cefnogi aildyfiant naturiol coed, plannu coed gwasgaredig neu blannu ardaloedd bychain iawn mewn mannau priodol er mwyn adfer cynefin ffridd.

Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

Mae angen ymchwil er mwyn gallu adnabod lleoliad ffriddoedd presennol a rhai hanesyddol fel bod modd targedu gwaith rheolaeth ac adfer. Byddai'r wybodaeth hon hefyd yn ein galluogi i werthuso newidiadau arfaethedig mewn defnydd tir fel y gall penderfyniadau call gael eu gwneud, a fel y gall ardaloedd pwysig gael eu gwarchod ar gyfer bywyd gwyllt a phobl. Drwy ddeall mwy am leoliad ein ffriddoedd pwysig, a'r modd y gallent gyfrannu at reolaeth tir gynaliadwy, bydd hi'n bosib cynnwys ffriddoedd yn fwy effeithiol mewn gweithgareddau adfer natur sy'n digwydd ar raddfa tirwedd.

RSPB



Mae gwybodaeth, cydnabyddiaeth a rheolaeth addas yn hanfodol os am warchod ffriddoedd.



Ffridd neu goedcae yn Ne Cymru.

Cyfeiriadau:

1. Conway G, & Fuller R. Multi-scale relationships between vegetation pattern and breeding birds in the upland margins (ffridd) of North Wales. 2010. *BTO Research Report No.566*.
2. Blackstock TH, Howe EA, Stevens JP, Burrows CR, & Jones PS. *Habitats of Wales: a comprehensive field study, 1979 - 1997*. University of Wales Press Cardiff. 2010.
3. Fuller RJ, Atkinson PW, Garnett MC, Conway GJ, Bibby CJ, & Johnstone IG (2006). Breeding bird communities in the upland margins (ffridd) of Wales in the mid-1980s. *Bird Study* 53: 177-186.
4. Griffith GW, Holden L, Mitchel D, Evans DE, Aron C, Evans S, & Graham A. 2006. Mycological survey of selected semi-natural grasslands in Wales. *CCW report no. 743*.
5. Good J, Bryant R, & Carill P. 1990. Distribution, longevity and survival of upland hawthorn (*Crataegus monogyna*) scrub in north Wales in relation to sheep grazing. *Journal of Applied Ecology* 27: 272-283.
6. Latham J, Thomas RH, Spode S & Lindenbaum K. 2013. *Ecosystem resilience: a discussion paper on the use of the concept for Natural Resource Management*.
7. Henderson IG, Fuller RJ, Conway GJ, & Gough SJ. 2004. Evidence for declines in populations of grassland associated birds in marginal upland areas of Britain. *Bird study* 51. 12- 19.

RSPB. *Managing upland scrub for birds*. RSPB advisory poster.

Os am gyngor ynglŷn â sut i reoli eich tir ar gyfer y tegeirian llydanwyrdd bach, ewch i wefan Plantlife:
plantlife.org.uk/publications

Os am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

RSPB Cymru

Pencadlys Cymru

Tŷ Sutherland
Pontycastell
Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
Caerdydd
CF11 9AB
Ffôn: 029 2035 3000

Swyddfa gogledd Cymru

Uned 14, Llys Castan
Ffordd Y Parc, Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4FH
Ffôn: 01248 672850

rspb.org.uk

Clawr: Ffridd yng nghanolbarth Cymru (RSPB)
Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 207076, yr Alban rhif
SC037654

830-1921-13-1